# Adroddiad Blynyddol Cynllun Partneriaeth Llywodraeth Leol 2015-2016

## 1 Cyflwyniad

1.1 Mae adran 73 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (“y Ddeddf”) yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru esbonio sut y maent, wrth arfer eu swyddogaethau, yn bwriadu cynnal a hyrwyddo Llywodraeth Leol yng Nghymru. Cyhoeddwyd y ‘Cynllun Partneriaeth Llywodraeth Leol’ (“y Cynllun”) cyfredol yn 2008.

1.2 Mae Adran 73 o’r Ddeddf hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru gyhoeddi adroddiad yn esbonio sut y cafodd y cynigion yn y Cynllun eu rhoi ar waith ym mhob blwyddyn ariannol. Mae’r adroddiad hwn yn gwneud hynny ar gyfer blwyddyn ariannol 2015-2016, sef blwyddyn olaf y pedwerydd Cynulliad.

## 2 Diwygio Llywodraeth Leol

2.1 Roedd y gwaith o ddiwygio Llywodraeth Leol yn parhau'n ffocws cryf yn ystod 2015-2016. Yn ystod 2015-2016, ceisiodd Llywodraeth Cymru greu consensws ynghylch diwygio llywodraeth leol, gan adeiladu ar argymhellion adroddiad y Comisiwn ar Lywodraethu a Darparu Gwasanaethau Cyhoeddus, a gyhoeddwyd yn 2014.

2.2 Pasiwyd Deddf Llywodraeth Leol (Cymru) gan y Cynulliad ar 20 Hydref 2015 a chafodd Gydsyniad Brenhinol ar 25 Tachwedd 2015. Roedd darpariaeth yn y ddeddfwriaeth i awdurdodau lleol uno'n wirfoddol a sefydlwyd deddfwriaeth baratoadol i'w huno a'u diwygio ymhellach gan gynnwys darpariaethau'n ymwneud â threfniadau pontio, trefniadau etholiadol, taliadau, a chyfyngu ar drafodiadau a recriwtio.

2.3 Yn dilyn cyfnod dwys o ymgysylltu ag aelodau etholedig a swyddogion awdurdodau lleol a chynnal ymgyrch i godi ymwybyddiaeth y cyhoedd, cyhoeddwyd ymatebion i'r Papur Gwyn, *Diwygio Llywodraeth Leol: Grym i Bobl Leol* ddechrau haf 2015 http://gov.wales/docs/dsjlg/consultation/150203-power-to-local-people-full-en.pdf. Dangosodd yr ymgynghoriad fod barn pobl yn amrywio, yn enwedig o ran diwygio strwythurol, ond bod mwy o gytundeb ynghylch nifer o ddiwygiadau arfaethedig yn ymwneud â llywodraethu ac atebolrwydd ym myd llywodraeth leol. Tynnwyd rhai cynigion yn ôl yn dilyn yr ymgynghoriad ac ni chawsant eu cynnwys yn y drafft dilynol o Fil Llywodraeth Leol (Cymru).

2.4 Lansiodd Llywodraeth Cymru ymgynghoriad ynghylch Bil Llywodraeth Leol (Cymru) drafft ar 24 Tachwedd 2015 a oedd yn cynnwys cynigion ar gyfer fframwaith deddfwriaethol diwygiedig newydd ar gyfer democratiaeth, atebolrwydd, perfformiad ac elfennau cyllid awdurdodau lleol, yn ogystal â darpariaethau i sefydlu siroedd newydd a'u cynghorau.

2.5 Daeth yr ymgynghoriad i ben ar 15 Chwefror 2016. Daeth 187 o ymatebion i law. Er nad oedd cydsyniad ynghylch y cynnig i uno'r prif awdurdodau lleol, roedd cefnogaeth i lawer o'r darpariaethau ehangach yn y Bil i'w diwygio. Cyhoeddwyd adroddiad cryno ar yr ymgynghoriad yn https://ymgyngoriadau.llyw.cymru/ymgyngoriadau/bil-llywodraeth-leol-cymru-drafft-ar-memorandwm-esboniadol Ar 4 Hydref 2016, cyhoeddodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol y ffiniau bras ar gyfer bwrw ymlaen â'r gwaith o ddiwygio llywodraeth leol.

2.6 Sefydlwyd Comisiwn Staff Gwasanaethau Cyhoeddus yn yr hydref 2015, ynghyd â'r rhaglen waith arfaethedig ar gyfer 2016-2017 http://publicservicesstaffcommission.gov.wales/about-us/role-and-remit?skip=1&lang=cy . Ddiwedd 2015, cymeradwywyd Deddf Llywodraeth Leol (Cymru) 2015 gan y Cynulliad a chafwyd Cydsyniad Brenhinol iddi http://www.legislation.gov.uk/cy/anaw/2015/6/enacted. Roedd y Ddeddf hon yn cynnwys darpariaethau paratoadol ar gyfer y diwygiadau ehangach a nodwyd ym Mil Llywodraeth Leol (Cymru) drafft, a gyhoeddwyd ddiwedd 2015 https://ymgyngoriadau.llyw.cymru/ymgyngoriadau/bil-llywodraeth-leol-cymru-drafft-ar-memorandwm-esboniadol . Bu Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol y Cynulliad yn craffu ar y Bil drafft a chynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus ynghylch y Bil ddechrau 2016. Oherwydd amseriad etholiadau'r Cynulliad, bu'n rhaid gohirio cyhoeddi'r ymatebion i'r ymgynghoriad a'r dadansoddiad ohonynt tan yr haf 2016. http://gov.wales/consultations/localgovernment/draft-local-government-(wales)-bill-consultation/?lang=en

2.7 Yn dilyn etholiadau Cynulliad Cenedlaethol Cymru ym mis Mai 2016, penderfynodd Llywodraeth newydd Cymru gyflwyno cynigion newydd ar gyfer diwygio Llywodraeth Leol. Gwnaeth Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol ddatganiad i'r Cyfarfod Llawn am ddiwygio llywodraeth leol, a hynny ar 4 Hydref http://www.assembly.wales/en/bus-home/pages/rop.aspx?meetingid=3994&assembly=5&c=Record%20of%20Proceedings#427466

## 3 Partneriaeth

### Cyngor Partneriaeth Cymru

3.1 Cyngor Partneriaeth Cymru ("y Cyngor Partneriaeth"), ynghyd â'i weithgorau, yw'r prif fforwm statudol lle y gall Gweinidogion Cymru a llywodraeth leol gynnal trafodaethau a chydweithio.

3.2 Yn y cyfarfod a gynhaliwyd fis Tachwedd 2015, dywedodd y cyn-Weinidog Gwasanaethau Cyhoeddus ei fod yn awyddus i gyrff llywodraeth leol gyfrannu mwy at y broses o bennu'r agenda a thrafod pynciau allweddol. Canolbwyntiodd y cyfarfod ar y wybodaeth ddiweddaraf am Gomisiwn Staff Gwasanaethau Cyhoeddus, yr ymgynghoriad ynghylch y Bil Llywodraeth Leol (Cymru) drafft, gweithredu Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 ac Adroddiad yr Is-grŵp Dosbarthu.

### Panel Arweinyddiaeth y Gwasanaethau Cyhoeddus

3.3 Sefydlodd y cyn-Weinidog Gwasanaethau Cyhoeddus Banel Arweinyddiaeth y Gwasanaethau Cyhoeddus ar ffurf grŵp gorchwyl a gorffen. Roedd yn cynnwys pobl ag arbenigedd, o bob rhan o'r sector cyhoeddus, i'w helpu i drawsnewid arweinyddiaeth ac arloesedd ym maes gwasanaethau cyhoeddus. Cynhaliwyd cyfarfodydd o'r Panel fis Chwefror, Mai, Gorffennaf, Medi a Rhagfyr 2015 a mis Chwefror 2016.

3.4 Dyma oedd rôl y Panel Arweinyddiaeth y Gwasanaethau Cyhoeddus:

- Llywio a chyfrannu at y rhaglen i drawsnewid gwasanaethau cyhoeddus;
- Casglu syniadau ynghyd yn ymwneud â sail tystiolaeth arfer da;
- Annog a chynorthwyo sectorau gwasanaethau i gydweithio'n fewnol a chyda'i gilydd, gan ganolbwyntio'n benodol ar greu gwasanaethau mwy effeithiol;
- Cyflymu'r broses o greu gwasanaethau cyhoeddus digidol;
- Cynghori'r Gweinidog ynghylch prosiectau neu gynigion i dreialu dulliau newydd o ddarparu gwasanaethau cyhoeddus.

3.5 Roedd gwaith y Panel yn canolbwyntio ar bedair thema:

- Un Gwasanaeth Cyhoeddus;
- Arweinyddiaeth a gwerthoedd;
- Arfer: ailystyried y modd y caiff gwasanaethau cyhoeddus eu cynllunio a'u darparu a hybu diwylliant o arloesi;
- Datblygiadau digidol.

3.6 Cynhyrchodd y Panel adroddiad yn crynhoi ei waith yn ystod ei flwyddyn gyntaf.

**Yr Is-grŵp Cyllid**

3.7 Sefydlwyd yr Is-grŵp Cyllid gan y cyn-Weinidog Llywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth yn 2013. Mae braslun o'i gylch gwaith a'i waith yn adran 6 o'r adroddiad hwn, sef Materion Ariannol. Cynhaliwyd dau gyfarfod o'r Grŵp yn ystod 2015 -2016. Y cyn-Weinidog Gwasanaethau Cyhoeddus gadeiriodd y ddau gyfarfod.

3.8 Ymhlith pethau eraill, trafododd y Grŵp y canlynol:

- Pwysau ariannol, cyfleoedd a hyblygrwydd yn y dyfodol;
- Y fformwla ar gyfer dosbarthu setliad Llywodraeth Leol 2015-2016.

3.9 Cafodd y Grŵp gymorth gan weithgorau technegol, yr Is-grŵp Dosbarthu a'r Grŵp Cyllid Cyfalaf a Buddsoddi. Paratôdd yr Is-grŵp Dosbarthu ei adroddiad blynyddol ar y newidiadau yn y fformwla a ddefnyddir i ddosbarthu'r setliad i awdurdodau unedol. Trafododd y Grŵp Cyllid Cyfalaf a Buddsoddi y datblygiadau o ran cyllid cyfalaf. Paratowyd setliadau 2016-2017 ar gyfer yr awdurdodau unedol a Chomisiynwyr Heddlu a Throseddu Cymru yn unol â chytundebau partneriaeth rhwng Llywodraeth Cymru, awdurdodau lleol, heddluoedd Cymru a'r Swyddfa Gartref.

## 4 Gwella trefniadaeth ac atebolrwydd Llywodraeth Leol

### Craffu

4.1 Er bod y Gronfa Datblygu Gwaith Craffu a rhaglen waith y Ganolfan Craffu Cyhoeddus wedi dod i ben y llynedd, mae rhyngwyneb defnyddiol wedi parhau â gwaith craffu llywodraeth leol drwy'r Panel Craffu ar Waith Gwasanaethau Cyhoeddus, a drwy'r swyddogion craffu unigol a'u rhwydweithiau. Rhoddwyd llawer o sylw i gyfrifoldeb newydd pwyllgorau craffu llywodraeth leol i ymdrin â pherfformiad eu Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus lleol a'r sefydliadau sy'n gweithio mewn partneriaeth â nhw. Cynhaliwyd ymgynghoriad ynghylch canllawiau drafft i'r Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus, a gyhoeddwyd o dan ddarpariaethau Deddf Llesiant a Chenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Mae canllawiau ar y mater hwn wrthi'n cael eu paratoi ar gyfer awdurdodau lleol.

### Panel Taliadau Annibynnol Cymru

4.2 Mae'r Panel wedi parhau i ymgysylltu â llywodraeth leol drwy gyfrwng ei adroddiadau blynyddol, gan ddylanwadu ar gynghorau sir a chymuned, awdurdodau tân ac achub ac awdurdodau parciau cenedlaethol. Ers i ddarpariaethau Deddf Llywodraeth Cymru (Cymru) 2015 ddod i rym, mae'r Panel wedi bod yn gyfrifol am fonitro tâl prif swyddogion cynghorau sir. Mae'n rhy gynnar rhoi sylwadau ar y modd y bydd y cyfrifoldeb hwn yn datblygu'n ymarferol. Yn gyffredinol, mae'r awdurdodau wedi derbyn argymhellion y Panel mewn perthynas â thâl prif weithredwyr.

### Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru

4.3 Nid yw'r Comisiwn a llywodraeth leol wedi ymwneud rhyw lawer â'i gilydd eleni gan fod y Comisiwn wedi gohirio'i raglen waith, a hynny oherwydd y mae'n disgwyl y bydd yn rhaid ymgymryd â gwaith sylweddol o dan y rhaglen i ddiwygio llywodraeth leol.

### Cynyddu amrywiaeth mewn llywodraeth leol

4.4 Mae Llywodraeth Cymru wedi ymgysylltu'n agos iawn â llywodraeth leol yn ystod y flwyddyn ddiwethaf i hyrwyddo rhaglen "Amrywiaeth mewn Democratiaeth". Nod y rhaglen hon yw creu mwy o amrywiaeth mewn cynghorau'n dilyn etholiadau 2017. Caiff Arweinydd y Prosiect gymorth gan Grŵp Llywio sy'n cynnwys cynrychiolwyr o'r prif bleidiau gwleidyddol, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC), y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol, Cymdeithas Diwygio Etholiadol Cymru, Diverse Cymru, Menywod yn Gwneud Gwahaniaeth (WMAD), Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Chwarae Teg, Un Llais Cymru a Phenaethiaid Gwasanaethau Democrataidd Cynghorau Conwy ac Abertawe.

4.5 Un rhan arwyddocaol o rôl Arweinydd y Prosiect dros y ddwy flynedd diwethaf oedd yr angen i sefydlu a chynnal rhaglen fentora i ganiatáu i ddarpar ymgeiswyr gysgodi cynghorwyr presennol. Ymunodd 46 â'r rhaglen a chawsant eu rhoi yng ngofal un mentor neu ragor. Hefyd, mae rhwydwaith o Hyrwyddwyr Amrywiaeth ym myd llywodraeth leol a rhaglen gyflogwyr sy'n ceisio annog cyflogwyr i gytuno i annog eu gweithwyr i ystyried sefyll mewn etholiadau.

## 5 Gwella gwasanaethau llywodraeth leol

5.1 Mae Llywodraeth Cymru wedi annog partneriaid gwasanaethau cyhoeddus i gydweithio, gan gynnwys cydweithio o fewn llywodraeth leol. Nid yw cydweithio yn nod ynddo'i hun, ond mae'n fodd i hybu'r broses o integreiddio gwasanaethau a'u haddasu'n ôl anghenion unigolion, teuluoedd a chymunedau, yn ogystal â gwireddu cyfleoedd i ddarparu gwasanaethau mwy effeithlon, sydd â mwy o gapasiti ac arbenigedd ac sy'n gallu gwrthsefyll problemau'n well.

5.2 Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi annog a chynorthwyo awdurdodau lleol i weithio gyda gwasanaethau cyhoeddus drwy Gymru i wella'u perfformiad drwy gydweithredu, gweithio mewn partneriaeth a rhannu arfer da. Rhoddwyd cymorth ariannol uniongyrchol yn ystod 2015-2016 i'w hannog i gydweithio, er enghraifft, drwy'r Gronfa Cydweithredu Rhanbarthol, y Gronfa Gofal Canolraddol a Buddsoddi i Arbed.

### Y Gronfa Cydweithredu Rhanbarthol

5.3 Yn ystod ei flwyddyn olaf, parhaodd y Gronfa Cydweithredu Rhanbarthol i fuddsoddi mewn prosiectau er mwyn sicrhau newidiadau gwirioneddol ac arwyddocaol yn y chwe rhanbarth. Buddsoddwyd £5 miliwn yn ystod 2015-2016 i annog awdurdodau lleol, y gwasanaethau iechyd a thai, y trydydd sector a'r sector annibynnol i gydweithio ar brosiectau partneriaeth. Rhoddwyd cymorth ariannol i roi prosiectau ar waith yn y gwasanaethau rheoleiddio, gwasanaethau TGCh ac i wneud yn fawr o gyfleoedd economaidd drwy feithrin sgiliau a chadwyni cyflenwi.

### Y Gronfa Gofal Canolraddol

5.4 O ganlyniad i lwyddiant y Gronfa Gofal Canolraddol yn 2014-2015, dyrannwyd £20 miliwn o arian refeniw i hybu cynlluniau â blaenoriaeth yn 2015-2016, a dyrannwyd £2.5 miliwn o hyn yn benodol i ymdrin ag achosion o oedi wrth drosglwyddo gofal. Cyflwynwyd y Gronfa yn y chwe rhanbarth: Caerdydd a'r Fro, Cwm Taf, Canolbarth a Gorllewin Cymru, Gogledd Cymru, Bae'r Gorllewin a Gwent.

5.5 Mae'r Gronfa wedi sbarduno awdurdodau lleol, y gwasanaethau iechyd a thai, y trydydd sector a'r sector annibynnol i weithio mewn partneriaeth a chydweithredu er mwyn gwella neu ddatblygu modelau gofal a chymorth cynaliadwy. Mae'r gwaith hwn yn cynnwys sefydlu

un pwynt mynediad, gwella cydweithrediad rhwng gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol, dulliau ataliol ac ail-alluogi. Mae hefyd wedi caniatáu i wasanaethau ddatblygu timau ymateb cyflym, gofal dementia a chymorth gwaith cymdeithasol saith diwrnod yr wythnos.

5.6 Bydd £50 miliwn o arian refeniw ychwanegol a £10 miliwn o arian cyfalaf ar gael i'r rhanbarthau yn 2016-2017. Yn y dyfodol, y Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol fydd yn gweinyddu'r Gronfa Gofal Canolraddol. Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn darparu ar gyfer y byrddau hyn, sy'n cynnwys y byrddau iechyd, y gwasanaethau cymdeithasol a'r trydydd sector. Eu swyddogaeth yw cynllunio a darparu gofal ar y cyd a diwallu anghenion gofal eu poblogaethau.

**Buddsoddi i Arbed**

5.7 Mae cynllun Buddsoddi i Arbed Llywodraeth Cymru wedi bod ar waith ers 2009 ac mae'n rhoi grantiau ad-daladwy i gyrff a ariennir gan Lywodraeth Cymru. Dylai prosiectau gynhyrchu arbedion sy'n rhyddhau arian parod a dylent hybu agenda gwasanaethau cyhoeddus Llywodraeth Cymru. Ers 2009, mae'r Gronfa wedi cynorthwyo dros 153 o brosiectau gwerth £139 miliwn at ei gilydd.

5.8 Yn 2015-2016, dechreuodd y Gronfa gydweithredu ag Adran Cyfoeth Naturiol Llywodraeth Cymru i hybu'r strategaeth Arbed Ynni. Ers ffurfio'r bartneriaeth hon a chreu cronfa ar wahân, sef Buddsoddi i Arbed – Twf Gwyrdd, mae bron £4 miliwn wedi'i fuddsoddi mewn nifer o brosiectau sylweddol i arbed ynni mewn llywodraeth leol.

**Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus**

5.9 Diwygiwyd y broses o baratoi cynlluniau cymunedol integredig gan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, drwy roi sail statudol i'r broses. Sefydlwyd Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus ar gyfer pob ardal awdurdod lleol i annog cyrff i gydweithio'n lleol.

5.10 Cyhoeddwyd canllawiau statudol drafft i ymgynghori yn eu cylch ar 7 Medi 2015 gan ofyn i gyrff cyhoeddus penodol a'r Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus roi sylwadau arnynt.

5.11 Cyn y cyfnod ymgynghori ffurfiol, cafwyd cyfnod cyfranogi rhwng mis Chwefror a mis Mai 2015. Yn ystod y cyfnod hwn, cafwyd sylwadau gan y Grŵp Cynghori Technegol, cyhoeddwyd dogfen drafod, cynhaliwyd pum digwyddiad cyfranogi a thrafodaethau dan arweiniad corff cyhoeddus.

5.12 Cafwyd cyfleoedd i ymgysylltu ymhellach â rhanddeiliaid yn ystod y cyfnod ymgynghori. Cynhaliwyd pedwar digwyddiad allweddol dan arweiniad Llywodraeth Cymru mewn gwahanol rannau o Gymru rhwng mis Hydref a mis Tachwedd 2015. Yn ogystal â hyn,

amlinellwyd cynigion yr ymgynghoriad mewn nifer o ddigwyddiadau ar gyfer sectorau a sefydliadau penodol.

5.13 Daeth yr ymgynghoriad i ben ar 16 Tachwedd 2016 a daeth 107 o ymatebion i law. Cyhoeddwyd y canllawiau statudol ar 25 Chwefror 2016 ynghyd â chrynodeb o'r ymatebion.

5.14 Cynhaliwyd Cynhadledd y Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus ar 26 Tachwedd 2015 i gyrff cyhoeddus a fyddai'n rhan o'r byrddau newydd. Y nod oedd codi ymwybyddiaeth o'r disgwyliadau a'r gofynion y byddai angen i'r byrddau eu bodloni cyn gynted ag y byddent wedi'u sefydlu.

5.15 Sefydlwyd y Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus yn ffurfiol ar 1 Ebrill 2016.

**Gwasanaethau Cymdeithasol**

5.16 Cafodd Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 Gydsyniad Brenhinol ym mis Mai 2014, gan roi fframwaith deddfwriaethol ar waith er mwyn trawsnewid gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru.

5.17 Drwy gydol 2015-2016, canolbwyntiwyd ar ddatblygu ac ymgynghori ynghylch ail ran y gyfres o reoliadau, codau ymarfer a chanllawiau sy'n ofynnol o dan y Ddeddf, ac ar sefydlu'r fframwaith statudol angenrheidiol a pharatoi at ei roi ar waith. Datblygwyd y gwaith mewn partneriaeth â rhanddeiliaid allweddol. Cyfrannodd grwpiau technegol a grwpiau cynghori at y gwaith o ddatblygu'r rheoliadau a'r codau ymarfer manwl. Daeth Deddf 2015 i rym ar 6 Ebrill 2016.

5.18 Defnyddiwyd grant Cyflawni Trawsnewid, gwerth £3 miliwn, i helpu i roi Deddf 2014 ar waith, ac roedd hyn ddwywaith cymaint ag oedd ar gael yn 2014-2015. Targedwyd y grant i helpu awdurdodau lleol i gydweithio ag amrywiaeth o bartneriaid, a'r GIG, i sicrhau bod y Ddeddf yn cael ei rhoi ar waith, gan adlewyrchu'r gofynion yn y Ddeddf i gydweithredu a gweithio mewn partneriaeth.

5.19 Grŵp gwleidyddol yw Fforwm Partneriaeth Cenedlaethol y Gwasanaethau Cymdeithasol ac mae'n cynnwys cynrychiolwyr o wahanol bleidiau a sectorau. Roedd y Fforwm Partneriaeth yn allweddol wrth geisio mynd i'r afael materion strategol a chynorthwyo â'r gwaith o ddarparu Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy, gan gynnwys rhoi Deddf 2014 ar waith a datblygu cynigion ar gyfer Bil Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) a oedd ar ei hynt drwy broses graffu Cynulliad Cenedlaethol Cymru, wedi iddo gael ei gyflwyno ym mis Chwefror 2015. Cafodd y Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gydsyniad Brenhinol fis Ionawr 2016.

5.20 Er mwyn hybu'r broses o integreiddio gwasanaethau iechyd, tai a gofal cymdeithasol, cytunwyd i barhau i weithredu'r Grant Gofal

Canolraddol. Sefydlwyd y Grant Gofal Canolraddol yn 2014-2015 er mwyn ceisio gwella gwasanaethau cyhoeddus drwy integreiddio gwasanaethau tai, iechyd a gwasanaethau cymdeithasol. Yn 2015-2016 dyfarnwyd £50 miliwn o arian refeniw a £10 miliwn o arian cyfalaf i barhau i ariannu mentrau sydd ar waith ar hyn o bryd i atal pobl rhag cael eu hanfon i'r ysbyty'n ddiangen, rhag anfon pobl i gartrefi preswyl am resymau amhriodol, a rhag gohirio rhyddhau pobl o'r ysbyty. Ehangwyd y gronfa hefyd i ddarparu ar gyfer datblygu gwasanaethau gofal a chymorth integredig i grwpiau eraill gan gynnwys pobl ag anableddau dysgu neu awtistiaeth a phlant ag anghenion cymhleth.

**Awdurdodau parciau cenedlaethol**

5.21 Ar 29 Medi 2014, comisiynodd y Gweinidog Cyfoeth Naturiol Banel Annibynnol i gynnal adolygiad o dirweddau dynodedig yng Nghymru. Yr Athro Terry Marsden o Brifysgol Caerdydd gadeiriodd y panel adolygu ac roedd John Lloyd Jones a Dr Ruth Williams yn aelodau.

5.22 Gwnaeth yr Adolygiad Annibynnol o Dirweddau Dynodedig yng Nghymru 69 o argymhellion yn ymwneud â chynigion a sylwadau niferus ynghylch dibenion, egwyddorion, gweledigaeth, modelau llywodraethu, cynllunio ac ariannu. Gan fod nifer a chwmpas yr argymhellion yn sylweddol iawn, roedd angen ymgymryd â rhagor o waith i ddeall eu buddion a'u canlyniadau posibl.

5.23 Mae'r Arglwydd Dafydd Ellis-Thomas AC wrthi'n arwain Gweithgor Tirweddau Cymru yn y Dyfodol sy'n ymdrin â'r argymhellion hyn. Mae'n cynnwys cynrychiolwyr o'r parciau cenedlaethol, AHNE, grwpiau budd, busnesau a llywodraeth leol. Bydd y gweithgor yn cyflwyno adroddiad yn yr hydref 2016.

**Cydnerthedd**

5.24 Mae Gweinidogion Cymru wedi parhau i weithio'n agos gydag uwch swyddogion o'r gwasanaethau brys, llywodraeth leol ac asiantaethau eraill i baratoi at argyfyngau sifil drwy Fforwm Cydnerthedd Cymru. Ym mis Ebrill 2015, galwodd Prif Weinidog Cymru am uwchgynhadledd ar gyfer y Llywodraeth ac asiantaethau sy'n gweithio mewn partneriaeth â hi, i gydgysylltu'r gwaith o ymladd yn erbyn yr holl danau ar laswelltir yng Nghymru ac i baratoi cynllun gweithredu a roddwyd ar waith yn y gwanwyn 2016.

**Tân**

5.25 Cynhaliwyd tri chyfarfod rhwng y Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus a Chadeiryddion yr Awdurdodau Tân ac Achub a/neu'r Prif Swyddogion Tân yn ystod 2015-2016. Hefyd, cynhaliwyd cyfarfod bob mis o leiaf rhwng swyddogion Llywodraeth Cymru a'r Prif Gynghorydd Tân ac Achub.

5.26 Yn ystod 2015-2016, datblygodd Llywodraeth Cymru Fframwaith Cenedlaethol newydd ar gyfer Gwasanaethau Tân ac Achub. Roedd hyn yn wahanol iawn i'r fframwaith blaenorol, a chafodd ei ddatblygu drwy weithio mewn partneriaeth lawn â'r Awdurdodau Tân ac Achub a rhanddeiliaid eraill fel undebau'r ymladdwyr tân. Cymerodd y Prif Swyddogion Tân ran fel arsylwyr ar fwrdd y rhaglen a oedd yn goruchwylio'r gwaith hwn.

**Y lluoedd arfog**

5.27 Mae Grŵp Arbenigwyr y Gweinidog ar Anghenion Cymuned y Lluoedd Arfog yng Nghymru yn cyfarfod bob chwe mis. Yn ystod 2014-2015 cynhaliwyd y cyfarfodydd ym mis Mehefin a mis Rhagfyr. Gan fod cynrychiolwyr o wahanol asiantaethau yn y Grŵp, mae'n gyfle gwych i gydweithio â phartneriaid fel y Lleng Brydeinig Frenhinol, y tri gwasanaeth a chyrff eraill sy'n cynorthwyo Cymuned y Lluoedd Arfog. Mae'r grŵp yn nodi blaenoriaethau ar y cyd ar gyfer y dyfodol ac yn awgrymu sut y dylid cyflawni'r blaenoriaethau hynny.

5.28 Yn ystod 2014-2015, cynhaliwyd dau gyfarfod rhwng Hyrwyddwyr y Lluoedd Arfog o'r awdurdodau lleol, aelodau'r byrddau iechyd lleol, y gwasanaeth prawf, yr Adran Gwaith a Phensiynau a chyrff yn y trydydd sector fel y Lleng Brydeinig Frenhinol, y Weinyddiaeth Amddiffyn a'r tri gwasanaeth. Mae'r cyfarfodydd hyn yn gyfle i ryngweithio, i rannu arfer gorau ac i hyrwyddo cynlluniau i gydweithio'n agosach a gwella trefniadau lleol er mwyn sicrhau bod anghenion cymuned y Lluoedd Arfog yn cael eu hintegreiddio'n llawn. Mae'r digwyddiadau wedi cynnig sylfaen ar gyfer cryfhau cysylltiadau ac i annog sectorau i gydweithio.

5.29 Yn ystod 2014-2015, cynhaliwyd cyfarfodydd yn rheolaidd rhwng y Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus a phartneriaid allweddol, er enghraifft, y Lleng Brydeinig Frenhinol a Brigâd 160 y Troedfilwyr a Phencadlys Cymru, i ddod o hyd i gyfleoedd i gydweithredu i gynorthwyo cymuned y Lluoedd Arfog yng Nghymru.

**Addysg**

5.30 Ailystyriwyd y Model Cenedlaethol ar gyfer Gweithio'n Rhanbarthol, a ddatblygwyd ar y cyd â chynrychiolwyr llywodraeth leol, ac fe'i hadnewyddwyd yn yr hydref 2015 i adlewyrchu'r cynnydd a wnaed gan lywodraeth leol a'r consortia o ran rhoi'r model ar waith, a hefyd i adlewyrchu cyd-destun newydd y byd addysg (o ystyried datblygiadau sylweddol fel adroddiad Donaldson i ddyfodol y cwricwlwm ac asesu yng Nghymru) a'n cynnydd ni o ran cynhyrchu system hunanwella.

5.31 Mae'r gwaith o adnewyddu'r Model Cenedlaethol yn adlewyrchu'r cynnydd a wnaed, a'r sylwadau a gafwyd, ar ôl cyhoeddi adroddiadau cylch gwaith WAO ac Estyn ar waith y consortia. Yn ystod tymhorau'r gwanwyn a'r haf 2016, cynhaliodd Estyn ymweliadau arolygu unigol â phob un o'r consortia rhanbarthol. Disgwylir i'r adroddiadau gael eu

cyhoeddi yn ystod tymor yr haf. Bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio gydag awdurdodau lleol, consortia a CLILC i fwrw ymlaen â'r argymhellion wnaed.

5.32 Yn dilyn ymweliadau monitro ar ddiwedd 2015, tynnwyd yr holl awdurdodau lleol a oedd yn y categori mesur arbennig o'r categori statudol hwnnw gan Estyn. Tynnwyd yr un awdurdod a oedd yn dal yn y categori 'angen gwella'n sylweddol' o'r categori hwnnw yn dilyn ymweliad monitro yn y gwanwyn 2016.

## 6 Blaenoriaethau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol

6.1 Cafodd Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 Gydsyniad Brenhinol ar 29 Ebrill 2015 a daeth i rym ar 1 Ebrill 2016.

6.2 Mae'r Ddeddf yn rhoi dyletswydd llesiant ar amrywiaeth eang o gyrff cyhoeddus, gan gynnwys awdurdodau lleol a Gweinidogion Cymru, i wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Bydd y nodau llesiant cyffredin a'r dulliau o weithio o fewn y Ddeddf yn sbarduno newidiadau a fydd yn gwella'r pedwar maes hwn.

6.3 Mae'r Ddeddf yn nodi'r egwyddorion ar gyfer gwneud penderfyniadau yn y sector cyhoeddus, a hynny o fewn fframwaith cenedlaethol sy'n cynnwys saith o nodau llesiant; ac mae'n darparu ar gyfer dangosyddion cenedlaethol a cherrig milltir i asesu cynnydd yn ôl y nodau hyn. Mae'r Ddeddf yn galw am newid diwylliannol gwirioneddol yn y modd y mae cyrff cyhoeddus yn cynllunio ac yn gweithredu, gan wneud penderfyniadau a fydd, yn y tymor hir, o fudd i genedlaethau heddiw ac yfory.

6.4 Gosodwyd dangosyddion cenedlaethol i fesur cynnydd yn ôl y saith nod llesiant gerbron y Cynulliad Cenedlaethol ym mis Mawrth 2016. Mae 46 o ddangosyddion a byddant yn caniatáu i'r Llywodraeth, Aelodau'r Cynulliad, a phob un yng Nghymru, i weld y cynnydd a wneir ar lefel genedlaethol o ran cyflawni'r saith nod llesiant. Caiff Adroddiad Llesiant ei baratoi bob blwyddyn – cerdyn sgorio cenedlaethol newydd i fesur cynnydd yng Nghymru.

6.5 Nid mesur perfformiad corff cyhoeddus (e.e. awdurdod lleol neu Lywodraeth Cymru) neu berfformiad gwasanaeth penodol e.e. gwasanaethau cymdeithasol, addysg, cynllunio) neu berfformiad rhaglen/polisi (e.e. Twf Swyddi Cymru) yw diben y dangosyddion. Yn hytrach, maent yn mesur cynnydd a wneir drwy Gymru gyfan mewn perthynas ag agweddau gwahanol ar lesiant. Mae systemau eraill ar waith i fesur perfformiad cyrff cyhoeddus sy'n gysylltiedig â gwella gwasanaethau cyhoeddus.

## 7 Pwyslais ar gymunedau

7.1 Mae Llywodraeth Cymru wedi parhau i gydweithredu ag Un Llais Cymru a Chymdeithas Clercod Cynghorau Lleol, y cyrff sy'n cynrychioli sector y cynghorau tref a chymuned, ynghyd â phartneriaid a rhanddeiliaid allweddol. Mae'r gwaith o feithrin capasiti a gallu cynghorwyr a swyddogion cynghorau tref a chymuned wedi parhau gan gynnwys enghreifftiau o waith a ariennir gan Lywodraeth Cymru ac a gyflwynwyd gan Un Llais Cymru a Chymdeithas Clercod Cynghorau Lleol e.e. modiwl hyfforddiant datblygu cynaliadwy; cynhyrchu llyfryn o'r enw "Gweithio gyda Phobl Ifanc"; cynllun mentora a chodi ymwybyddiaeth i annog clercod i ennill tystysgrif Gweinyddu Cynghorau Lleol a modiwl hyfforddiant uwch mewn cyllid er mwyn helpu'r cynghorau i gydymffurfio â gofynion llywodraethu ac atebolrwydd ariannol. Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi parhau â'i gynllun bwrsariaeth ar gyfer cynghorwyr a chlercod mewn cynghorau llai h.y. cynghorau â throsiant blynyddol o £40,000 neu lai.

7.2 Roedd y Bil Llywodraeth Leol (Cymru) yn cynnwys cynigion ar gyfer sicrhau mwy o gysondeb o ran capasiti a gallu cynghorau tref a chymuned Cymru, gan gynnwys adolygiad o drefniadau cynghorau cymuned, mwy o dryloywder ac atebolrwydd, hyfforddiant a'r gallu i fanteisio ar bŵer cymhwysedd cyffredinol.

7.3 Ym mis Ionawr a mis Chwefror 2016, cynhaliwyd digwyddiadau ymgysylltu ar gyfer cynghorwyr a chlercod cynghorau tref a chymuned, i egluro'r cynigion yn y Bil drafft, a chafwyd sylwadau ganddynt hwy yn ogystal ag ymatebion gan y sector i'r ymgynghoriad ffurfiol.

7.4 Ar hyn o bryd, mae 13 o gytundebau siarter ar waith rhwng awdurdodau lleol a chynghorau tref a chymuned Cymru, yn nodi sut y byddant yn cydweithio.

## 8 Fframwaith ariannol

8.1 Mae Is-grŵp Cyllid y Cyngor Partneriaeth yn fforwm sy'n rhoi cyfle i drafod materion ariannol llywodraeth leol y byddai o fudd eu hystyried yn fwy manwl nag sy'n bosibl yn y Cyngor Partneriaeth llawn. Mae'n ategu gwaith y Cyngor Partneriaeth sydd, fel rhan o'i gylch gwaith, yn ystyried materion ariannol yn ymwneud â diwygio gwasanaethau cyhoeddus. Cynhaliwyd tri chyfarfod o'r Is-grŵp Cyllid yn ystod 2015-2016 (9 Gorffennaf a 28 Medi 2015 a 3 Chwefror 2016). Y cyn-Weinidog Gwasanaethau Cyhoeddus gadeiriodd y cyfarfodydd. Roedd y Gweinidog Cyllid hefyd yn bresennol yn y cyfarfodydd ym mis Gorffennaf a mis Medi.

8.2 Ymhlith pethau eraill, ystyriodd y Grŵp:

- Agweddau ar ariannu Cynghorau a'r Heddlu yn y dyfodol;
- Cyfleoedd i reoli problemau ariannu yn y dyfodol;
- Adolygu hyblygrwydd o ran ariannu;
- Trefniadau setliad Llywodraeth Leol 2016-2017.

8.3 Cafodd y Grŵp gymorth gan weithgorau technegol, yr Is-grŵp Dosbarthu a'r Grŵp Cyllid Cyfalaf a Buddsoddi. Paratôdd yr Is-grŵp Dosbarthu ei adroddiad blynyddol ar y newidiadau yn y fformwla a ddefnyddir i ddosbarthu'r setliad i awdurdodau unedol. Trafododd y Grŵp Cyllid Cyfalaf a Buddsoddi y datblygiadau o ran cyllid cyfalaf. Paratowyd setliadau 2016-2017 ar gyfer yr awdurdodau unedol a Chomisiynwyr Heddlu a Throseddu Cymru yn unol â chytundebau partneriaeth rhwng Llywodraeth Cymru, awdurdodau lleol, heddluoedd Cymru a'r Swyddfa Gartref.

8.4 Cafodd data awdurdodau lleol ei gasglu, ei goladu a'i brosesu i baratoi Cyfrifon Llywodraeth Gyfan Cymru 2014-2015 a ddefnyddiwyd, yn eu tro, i baratoi Cyfrifon Llywodraeth Gyfan y DU. Cefnogwyd prosesau rheoli ariannol da drwy gymeradwyo ceisiadau cymwys gan awdurdodau lleol i gyfalafu rhai ymrwymiadau gwariant refeniw penodol. Ar lefel swyddogol, trafodwyd materion ariannol yn rheolaidd mewn cyfarfodydd rhwng Llywodraeth Cymru a llywodraeth leol drwy CLILC, Cymdeithas Trysoryddion Cymru a Grŵp Cyllid ac Adnoddau Heddluoedd Cymru. Ategwyd y broses ymgysylltu hon gan gyfarfodydd rheolaidd parhaus â Swyddogion Cyllid awdurdodau lleol i drafod amrywiaeth eang o faterion ariannol drwy Gymdeithas Trysoryddion Cymru, Grŵp y Prif Gyfrifwyr a Gweithgor Refeniw a Budd-daliadau Cymru.

## Casglu a rheoli trethi

8.5 Caiff Awdurdod Refeniw Cymru ei sefydlu o dan Ddeddf Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) 2016 a bydd yn dechrau casglu trethi datganoledig (Treth Trafodiadau Tir a Threth Gwarediadau Tirlenwi) o fis Ebrill 2018 ymlaen. Mae profiad awdurdodau lleol a'u gwybodaeth am gasglu a rheoli trethi'n bwysig i Lywodraeth Cymru ac Awdurdod Refeniw Cymru. Caiff awdurdodau lleol eu cynrychioli ar Grŵp Cynghori ar Drethi Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol a'r Seminar Trethi newydd, ar lefel fwy gweithredol. Maent wedi cytuno i fod yn rhan o weithgor ar y cyd â Llywodraeth Cymru er mwyn medru rhannu gwybodaeth ac arbenigedd wrth i'r trefniadau ar gyfer casglu'r trethi datganoledig newydd ddatblygu.

## Atodiad

### Y ddarpariaeth statudol

Mae adran 73 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (“y Ddeddf”) yn darparu i Weinidogion Cymru ddatblygu Cynllun Llywodraeth Leol, fel a ganlyn:

**73 Cynllun Llywodraeth Leol**

(1) Rhaid i Weinidogion Cymru ddatblygu cynllun (“Cynllun Llywodraeth Leol”) yn esbonio sut y maent, wrth arfer eu swyddogaethau, yn cynnig cynnal a hyrwyddo Llywodraeth Leol yng Nghymru.

(2) Rhaid i Weinidogion Cymru -

(a) adolygu’r Cynllun Llywodraeth Leol yn barhaus, a

(b) ail-wneud neu adolygu’r cynllun o bryd i’w gilydd.

(3) Wrth benderfynu ar y darpariaethau i’w cynnwys yn y Cynllun Llywodraeth Leol, rhaid i Weinidogion Cymru ystyried unrhyw gyngor a sylwadau a gawsant gan y Cyngor Partneriaeth.

(4) Rhaid i Weinidogion Cymru gyhoeddi’r Cynllun Llywodraeth Leol ar ôl ei gynhyrchu ac os byddant yn ei ail-wneud; ac, os byddant yn adolygu’r cynllun heb ei ail-wneud, rhaid iddynt gyhoeddi naill ai’r diwygiadau neu’r cynllun ar ei newydd wedd (fel y gwelant orau).

(5) Os bydd Gweinidogion Cymru yn cyhoeddi cynllun neu ddiwygiadau o dan isadran (4), rhaid iddynt osod copi o’r cynllun neu’r diwygiadau gerbron y Cynulliad.

(6) Ar ôl bob blwyddyn ariannol, rhaid i Weinidogion Cymru –

(a) cyhoeddi adroddiad yn nodi sut y cafodd y cynigion yn y Cynllun Llywodraeth Leol eu rhoi ar waith yn ystod y flwyddyn ariannol honno, a

(b) gosod copi o’r adroddiad gerbron y Cynulliad.